**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**203 - Rheoliadau Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 2 Tachwedd 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Y cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8 ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

**Crynodeb**

Mae Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ddomestig ac uniongyrchol yr UE a'r rhai a ddargedwir i sicrhau bod y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer gwyliadwriaeth meddyginiaethau a gweddillion milfeddygol yn parhau i fod yn weithredol ac yn orfodadwy yn y Deyrnas Unedig (DU) ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, a bod y DU yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael.

Mae'r diwygiadau hefyd yn cyflwyno rheolaethau rheoleiddio llai uniongyrchol ar feddyginiaethau a gymeradwyir yng Ngogledd Iwerddon ac nid Prydain Fawr ac sy'n symud o Ogledd Iwerddon i farchnad Prydain Fawr. Mae angen y rheolaethau hyn er mwyn sicrhau bod rheoleiddiwr y

DU yn cael y sicrwydd angenrheidiol o ansawdd ac effeithiolrwydd diogelwch meddyginiaethau ar farchnad y DU at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd, iechyd a lles anifeiliaid a diogelwch defnyddwyr

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 4 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.